SFJGK504

# Darparu mynediad at wybodaeth a chymorth i unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â darparu mynediad at wybodaeth a chymorth i unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol. Mae’n cynnwys eich gallu i helpu unigolion i nodi eu hanghenion gwybodaeth a’u helpu i gael y wybodaeth a’r cymorth sy’n ofynnol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. sefydlu anghenion gwybodaeth unigolion yn unol â gofynion sefydliadol
2. archwilio'r wybodaeth a'r opsiynau sydd ar gael gydag unigolion gan gynnwys eu manteision a'u hanfanteision
3. nodi a chael at ffynonellau gwybodaeth sy'n bodloni anghenion unigolion yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
4. nodi asiantaethau eraill y gellir atgyfeirio unigolion iddynt am wybodaeth a chymorth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad
5. darparu gwybodaeth a manylion cyswllt i unigolion ar gyfer asiantaethau eraill, lle y bo'n berthnasol, a all ddarparu gwybodaeth a chymorth iddynt
6. gwneud atgyfeiriadau i asiantaethau eraill sy'n darparu cymorth a gwasanaethau i unigolion yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
7. cytuno gydag unigolion ar sut y bydd unrhyw gymorth parhaus yn cael ei ddarparu, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
8. cynnal cyfrinachedd unigolion lle bo'r gofyn unol â pholisïau a gweithdrefnau deddfwriaethol a sefydliadol
9. cynorthwyo unigolion i bontio rhwng cymorth a gwasanaethau gwahanol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
10. defnyddio arddulliau a ffurfiau cyfathrebu gwahanol a'u haddasu i fodloni anghenion yr unigolyn
11. gweithio gydag unigolion mewn ffyrdd sy'n cefnogi dealltwriaeth, ac sy'n:
    - annog cyfathrebu agored a gonest
    - sympathetig i sefyllfa'r unigolyn
    - cyfrif am natur amrywiol y rhai rydych chi'n gweithio gyda nhw
    - eu trin nhw gydag urddas a pharch
12. darparu gwybodaeth a chyngor i unigolion mewn amgylcheddau priodol a diogel i bawb, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
13. gweithio o fewn gofynion a phrotocolau cyfreithiol a sefydliadol wrth rannu cyngor a gwybodaeth gydag eraill.
14. gweithio o fewn lefelau eich cyfrifoldeb a'ch awdurdod eich hun ac atgyfeirio i bobl eraill berthnasol, lle bo hynny'n briodol
15. gwerthuso effaith y wybodaeth a'r cymorth rydych chi'n eu darparu i unigolion yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad

16. defnyddio canfyddiadau gwerthuso i lywio a gwella'r wybodaeth a'r cymorth rydych chi'n eu darparu yn unol â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau
17. diweddaru cofnodion a gwybodaeth gyda chyfathrebu parhaus a gwybodaeth newydd yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy'n berthnasol i'ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni.
2. y canllawiau, y polisïau a'r gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd y dylid troi atynt
3. yr ystod o asiantaethau a gwasanaethau y gallech weithio gyda nhw
4. pwy y dylech roi gwybod iddynt os nad allwch gefnogi unigolion o fewn eich rôl a chyfyngiadau eich awdurdod
5. pwy y dylech geisio cyngor oddi wrthynt pan fydd angen cymorth arnoch yn eich rôl
6. cyfyngiadau eich awdurdod, eich cyfrifoldeb a'ch cymhwysedd proffesiynol
7. beth yw cam-drin domestig a thrais rhywiol, a pha mor gyffredin ydyw yn eich cymuned
8. arwyddion o gam-drin a'r dulliau y mae camdrinwyr yn eu defnyddio i gynnal grym a rheolaeth.
9. effaith cam-drin domestig neu drais rhywiol ar bawb y mae'n effeithio arnynt, gan gynnwys unigolion, plant a dibynyddion
10. anghenion gwybodaeth a chymorth cyffredin unigolion sydd wedi dioddef cam-drin domestig neu gam-drin rhywiol a sut i fodloni'r rhain
11. mathau o wybodaeth a chymorth y mae unigolion yn eu ceisio, a'u ffynhonnell
12. sut i fod yn sensitif ac yn hyblyg eich ffordd, gan ddefnyddio technegau amrywiol sy'n briodol i ymddygiad ac agwedd unigolion
13. rôl ac effaith croestoriadedd yn gysylltiedig â cham-drin domestig a thrais rhywiol
14. sut i greu amgylchedd sy'n gwneud i unigolion deimlo'n gartrefol
15. gwahanol ymatebion i drawma a'u heffaith
16. sut i gymhwyso ymarfer ystyriol o drawma yn eich maes ymarfer
17. sut i gymhwyso dull seiliedig ar gryfderau, dan arweiniad anghenion, yn benodol i fodloni anghenion yr unigolyn
18. sut i ddarparu gwybodaeth a chymorth sy'n hwyluso gwneud penderfyniadau a chynllunio gweithredu gwybodus gan unigolion
19. y prif asiantaethau, sefydliadau a gwasanaethau yn eich ardal y gellir atgyfeirio ceisiadau gan unigolion am wybodaeth a chymorth iddynt a sut i atgyfeirio

20. pwysigrwydd cynnal hawl yr unigolyn i wneud ei benderfyniadau ei hun, a thechnegau ar gyfer caniatáu hyn
21. y camau sy'n ofynnol pan nodir fod cam-drin domestig neu drais rhywiol yn cael ei ddatgelu
22. yr adnoddau sydd ar gael i alluogi unigolion i gael at y wybodaeth ofynnol, gan gynnwys:
• y fformatau gwahanol sydd ar gael i gynorthwyo pobl ag anawsterau corfforol, meddyliol, cyfathrebu ac anawsterau eraill
23. meini prawf ar gyfer mynediad at wasanaethau a chymorth arall
24. pwysigrwydd meithrin ffydd ac empathi gydag unigolion, a dulliau o wneud
25. arddulliau a ffurfiau cyfathrebu gwahanol a sut i'w haddasu i fodloni anghenion yr unigolyn
26. pwysigrwydd cyfathrebu dieisiau a sut mae gwahanol ddiwylliannau yn defnyddio ac yn dehongli iaith y corff mewn ffyrdd gwahanol
27. rhwystrau cyffredin rhag cyfathrebu a ffyrdd o'u goresgyn
28. pwysigrwydd bod yn ymwybodol o'ch gwerthoedd a'ch credoau eich hun a sut gallai'r rhain ddylanwadu ar y ffordd rydych chi'n darparu gwybodaeth a chymorth i bobl eraill
29. sut i herio agweddau ac ymddygiad gwahaniaethol neu a allai fod yn niweidiol, a phwysigrwydd gwneud hynny
30. yr amgylchiadau pan fydd angen mynd yn groes i ddymuniadau datganedig unigolion a phwysigrwydd sicrhau eu bod yn deall pam nad yw eu dymuniadau yn cael eu diwallu
31. cyfyngiadau cyfrinachedd sy'n berthnasol i'ch rôl

## Geirfa